# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



# SAIN TATHAN

## Gorllewin y Fro

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## Ar gyfer ardal Sain Tathan

**Dyma'r Cynllun Gweithredu Cymdogaeth i ardal Sain Tathan ym Mro Morgannwg.**

Mae un ysgol gynradd, Ysgol Gynradd Sain Tathan, sy'n bwydo i Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr. Mae nifer o siopau lleol gydag ychwanegiad diweddar o archfarchnad fach Co-Op a chyfleusterau lleol eraill. Mae tair canolfan gymunedol yn yr ardal.

Yn 2018, ailddatblygwyd y parc lleol gyda chyllid Adran 106.

## Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017 - Mae 1,576 o bobl yn byw yn Sain Tathan
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu i Ddinas Powys yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub i Sain Tathan yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae 213 eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor; yn cynnwys 70 o dai, 17 o fflatiau a 21 o fflatiau i bobl hŷn. Mae 4 eiddo lesddaliadol a 51 garej.

Mae'r eiddo wedi ei godi mewn dull traddodiadol ac fe'i adeiladwyd tua 1919 a 1965.


TWIT ROAD
PW
CHURCH
PO
GLYNDWR AVENUE
GLEBELAND PLACE
PANT-Y-CELYN PLACE
LOUGHER PLACE
34m
Community Centre
Playing Field
Church Farm





# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?





## Beth yw ei nodau?

Mae Cynllun Cymdogaeth Sain Tathan yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystâd. Mae'r Cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystâd, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

Mewn arolwg tenantiaid diweddar a gwblhawyd yn yr ardal, dim ond 14% o denantiaid a gadarnhaodd eu bod yn adnabod Tîm Cymdogaeth yr ardal. O ystyried y wybodaeth hon, bydd y Cynllun Cymdogaeth hefyd yn edrych ar sut y gall y tîm gynyddu ei bresenoldeb yn yr ardal ac adeiladu cysylltiadau cryfach â'r gymuned.

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 57% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (cyfartaledd y Fro yw 58%).<br>Nid yw cymdogion swnllyd yn peri pryder mawr yn yr ardal gyda dim ond 37% o denantiaid yr ardal yn nodi bod hon yn broblem, sydd ond ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fro o 35%.<br>Mae pryderon tenantiaid ynghylch y defnydd o gyffuriau yn yr ardal yn uwch nag mewn rhannau eraill o'r Fro gyda 42% o breswylwyr yn nodi ei bod yn broblem o'i gymharu â 26% mewn ardaloedd eraill.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, nododd 86% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn byw yn yr ardal.<br>"Mae'n ardal dawel braf"<br>"Ardal dawel gyda pharciau braf" |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 81% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 84% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 69% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn (cyfartaledd y Fro yw 66%).<br>Dim ond 14% o denantiaid yr ardal sy'n adnabod y Tîm Rheoli Cymdogaeth. |
| Galw am gartrefi | Mae galw rhesymol am eiddo yn yr ardal, ond nid ydynt yn dod ar gael yn aml i'w hailosod. Ar gyfartaledd ceir 5 cynnig am bob eiddo a ddaw ar gael yn yr ardal pan gânt eu hysbysebu i'w hailosod.<br>"Rwy'n hoff iawn o fyw yma - ni fyddwn yn newid unrhyw beth" |
| Mynediad at wasanaethau | Mae tenantiaid wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes llawer o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yn yr ardal ac fel blaenoriaeth, hoffent weld mwy o wasanaethau lleol yn cael eu darparu yn yr ardal. |
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 81% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian. Mae 17% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n well na'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%; fodd bynnag, mae cyfran uchel o denantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i dalu eu costau tai. |
| Atgyweirio | Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod. Roedd 73% o denantiaid yr ystâd yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 74% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau uwch na'r cyfartaledd o gyflogaeth o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Mae ychydig llai nag 1% o bobl o oedran gweithio sy'n byw yn yr ardal yn hawlio budd-daliadau diweithdra. |
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd. Yn dilyn arolwg tenantiaid diweddar, cadarnhaodd 57% o'r tenantiaid fod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y byddai'r newidiadau yn effeithio arnynt. |
| Trosiant eiddo | Daeth 4 eiddo yn wag y llynedd (2% o stoc dai'r ardal) |

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Tenantiaid gweithgar | Ymgysylltiad isel iawn sydd gennym â thenantiaid sy'n byw yn yr ardal, nid oes grwpiau tenantiaid ffurfiol er ein bod yn ymwybodol bod rhai o'n tenantiaid yn ymgysylltu'n weithredol â grwpiau cymunedol.<br>Ychydig o ymgysylltu sydd wedi bod gyda thenantiaid mewn perthynas â gweithgareddau cymunedol yn yr ardal.<br>Nid oes unrhyw grwpiau tenantiaid yn cwmpasu'r ardal hon ac nid yw'n cael ei chynrychioli yn unrhyw un o'n fforymau tenantiaid. |
| Trosedd a niwsans | Adroddir nifer isel o droseddau i'r heddlu, yn is na chyfartaledd y Fro, ond mae'r rhain yn cynnwys YGG, trais a difrod troseddol. |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 23% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, sy'n debyg i gyfartaledd y Fro. Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o gymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod gan fwy o bobl nag arfer broblemau symudedd o ryw fath neu'i gilydd, eu bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig. |
| Pobl ifanc | Mae gan yr ardal gyfran uwch o bobl ifanc o'i chymharu â chyfartaledd ehangach y Fro neu Gymru gyda 20% o'r boblogaeth rhwng 0-15 oed (o gymharu 19% ar draws y Fro).<br>Fodd bynnag, o ystyried hyn prin yw'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer Pobl Ifanc trwy Glybiau Ieuenctid, grwpiau cymdeithasol. |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol yn is na'r cyfartaledd o gymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.<br>Hefyd mae cyfraddau absenoldeb disgyblion yn uwch na chyfartaledd y Fro mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. |
| Mannau agored | Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio, a nifer o ddarnau llai o fannau gwyrdd neu fannau parcio yn yr ystâd. |
| Graddfeydd yr ystâd | Graddiad cyffredinol yr ystâd yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ardal. |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystâd

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

| Barn/sylwadau preswylwyr | |
|---|---|
| Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant isel o eiddo. | Mae'r ardaloedd garej yma wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, ar wahân i un ardal lle rydym yn ystyried dymchwel rhai garejys. |
| Mae ymddangosiad yr ardal yn dda yn gyffredinol gyda llawer o fannau gwyrdd. Mae sawl pentref bach yn eistedd ochr yn ochr ag ardaloedd mwy fel Llanilltud Fawr a'r Rhws. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda. | Mae hefyd rai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael. |
| Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn. | |
| Mae'r tîm Cymdogaeth yn siarad â phreswylwyr yn rheolaidd ond ar hyn o bryd nid ydynt yn gweithio gydag unrhyw fforymau preswylwyr na grwpiau ymgynghorol. Teimlir bod diffyg cyfleoedd i gael mewnbwn rheolaidd gan breswylwyr ar draws y gymdogaeth gyfan. | Nid yw pobl yn adnabod y Tîm Cymdogaeth yn ddigon da/ dim cyswllt cryf.<br><br>Angen gwybod mwy am ein tenantiaid/ demograffeg. |

## Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal y:

- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain
- Sicrhau bod atgyweiriadau a chynnal a chadw'n cael eu gwneud i safon uchel ac yn amserol
- Sicrhau ansawdd cyffredinol y cartrefi

## Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo dylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Gwella cyfleusterau parcio yn yr ardal
- Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cefnogi tenantiaid gyda gwasanaethau hyfforddi a chyflogaeth

# Camau Gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Materion amgylcheddol | | |
| Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth. | Gwella ymddangosiad y gymdogaeth. | O fewn 6 mis |
| Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystad i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensio ayb. | Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol.<br>Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin. | O fewn 12 mis |
| Datblygu rhaglen wella ar gyfer y safleoedd garejys i ddod â'r lle yn ôl i ddefnydd. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella trefniadau parcio lleol. | O fewn 12 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Gweithio gyda thenantiaid i nodi pryderon diogelwch cymunedol a datblygu cynllun sut y gellir gwella'r rhain mewn partneriaeth â Bro Ddiogelach. | Gwella diogelwch cymunedol<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. Cynyddu ymgysylltiad â thenantiaid lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. | O fewn 12 mis |
| Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu Swyddogion Cymorth Cyumunedol yr Heddlu (SCCH's) fel y bo'n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i sefydlu grŵp rhieni ifanc, gan ddod â'r gymuned ynghyd a chefnogi tenantiaid newydd sy'n symud i'r ardal. | Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus.<br>Gwella iechyd a llesiant. | O fewn 12 mis |
| Hyrwyddo bancio amser a chynyddu nifer o oriau gwirfoddoli tenantiaid. | Datblygu cysylltiadau cymunedol da. Darparu mwy o weithgareddau cymunedol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 12 mis |
| Datblygu clwb ieuenctid / gwasanaethau ieuenctid a gweithgareddau cymunedol fel Clwb Beicio. | Gwella gwasanaethau lleol.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant. Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Adolygu cyfleusterau a gweithgareddau cyfredol i bobl ifanc. | Gwella gwasanaethau lleol.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Parhau â'r teithiau cerdded misol, gan wahodd y SCCHau lleol - dod i adnabod ein tenantiaid a chynyddu presenoldeb yr heddlu yn yr ardal | Gwella ymgysylltiad â thenantiaid.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol<br>Mynd i'r afael ag YGG ac ymdrin â sbwriel neu dipio anghyfreithlon. | Parhaus |
| Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd yn yr ardal y gellir ei ddatblygu i greu lleoedd cymunedol neu wella'r amgylchedd lleol. Mae hwn i'w gwblhau mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol.<br>Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gellir defnyddio mannau gwyrdd a thir gwastraff i gynyddu parcio. | Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cynyddu'r parcio sydd ar gael yn yr ardal. | O fewn 12 mis |
| Creu cardiau cyswllt y Tîm Cymdogaeth, gan gynnwys lluniau a gwybodaeth gyswllt ar gyfer swyddogion. Yna bydd y rhain yn cael eu danfon i holl eiddo Cartrefi'r Fro yn yr ardal.<br>Bydd y rhain hefyd yn cynnwys manylion Teithiau Cerdded Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltiad cymunedol.<br>Gwella cysylltiadau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| Mewn partneriaeth â'r ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, rhedeg Clwb Beicio Sain Tathan ar gyfer plant sy'n byw yn yr ardal. | Gwella iechyd a llesiant.<br>Gwella cysylltiadau cymunedol.<br>Gwella ymgysylltiad â'r gymuned leol. | O fewn 6 mis (bydd gweithgaredd yn digwydd yn ystod yr haf gan ei fod yn ddibynnol ar y tywydd) |
| Recriwtio nifer o Hyrwyddwyr Cymunedol a llysgenhadon Bancio Amser yn yr ardal i gefnogi gwaith y Tîm Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltu cymunedol.<br>Gwella cysylltiadau cymunedol. | O fewn 6 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Sefydlu fforwm neu grŵp tenantiaid yn yr ardal i sicrhau cyfathrebu agored â thenantiaid. | Galluogi tenantiaid i wneud sylwadau yn hawdd a chyfrannu at sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol.<br>Gwella ymgysylltiad â'r gymuned leol. | O fewn 6 mis |
| Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol fel y Gathering Place i nodi canolfannau lleol posibl ar gyfer sesiynau 'galw heibio' i drafod tai, er mwyn cynyddu presenoldeb yn yr ardal. | Gwella ymgysylltiad â thenantiaid.<br>Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. | O fewn 6 mis |
| Cynnal nifer o sesiynau cyngor ariannol a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol. | Darparu Cyngor Ariannol a gwasanaethau cymorth i denantiaethau.<br>Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. | O fewn 6 mis |



# Sut i gysylltu â ni:


**Dros y ffôn:**

01446 700111

**Drwy e-bost:**

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes Cartrefi'r Fro

**Yn ysgrifenedig:**

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

**Drwy'r we:**

www.bromorgannwg.gov.uk

**Yn bersonol:**

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri


8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener